

10 Ffaith am dreial PARAMEDIC2

1 Ataliad y Galon
"Ataliad y galon" yw'r sefyllfa pan mae'r galon yn stopio curo'n sydyn ac mae'r claf yn anymwybodol.

2 Ail ddechrau y Galon
"Adfywio", neu CPR (adfywio cardio-pwlmonaidd) i roi enw arall arno, yw ymdrech i ail ddechrau y galon â'r nod yn y pen draw yw achub bywyd y person fel ei fod yn gallu mynd adref a mynd yn ôl at ei weithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

3 Triniaethau rydyn ni'n gwybod eu bod nhw'n gweithio
Mae angen triniaeth **FRYS** ar gyfer ataliad y galon. Mae ymchwil wedi dangos bod **cywasgiadau cynnar ar y frest a diffibrilio** (siciau trydanol) yn achub bywydau.

4 Triniaethau dydyn ni ddim yn gwybod a ydyn nhw'n gweithio

Weithiau mae cyffuriau, fel adrenalin, yn cael eu rhoi fel rhan o'r adfywio. Nid yw wedi'i brofi erioed a yw adrenalin yn ddefnyddiol neu'n niweidiol.



5 1 o bob 10 o bobl
(sy'n dioddef o ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty)
sy'n goroesi i fynd adref

6 Gwella gofal
Mae treialon clinigol yn rhan o ofal iechyd bob dydd yn y GIG ac maen nhw'n ein helpu ni i ddarganfod pa driniaethau sy'n gweithio a pha rai sydd ddim yn gweithio.



8 Treial PARAFEDDYG2
Mae'n hanfodol ein bod ni'n darganfod a yw adrenalin yn ddefnyddiol neu'n niweidiol wrth ei ddefnyddio yn ystod adfywio.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd yn ariannu Ysgol Feddygol Prifysgol Warwick i gynnal treial clinigol mawr i ateb y cwestiwn hwn. Mae hyn yn golygu pe baech chi'n cael ataliad eich calon efallai y byddech chi'n derbyn adrenalin fel rhan o'ch triniaeth neu efallai na fyddech chi'n ei dderbyn. Fe fyddech chi'n derbyn pob triniaeth y profwyd ei bod yn gweithio.

7 O naw o astudiaethau ymchwil sydd wedi rhoi effaith adrenalin ar oroesi ar brawf:

- gwnaeth 1 ddangos cynnydd mewn goroesi
- gwnaeth 4 ddangos dim effaith ar oroesi
- gwnaeth 4 ddangos bod llai o bobl wedi goroesi ar ôl derbyn adrenalin

Fodd bynnag, nid oes yna ddigon o dystiolaeth o hyd i wybod a yw adrenalin yn ddefnyddiol neu'n niweidiol, ac mae angen treial clinigol mawr.

10 Os nad ydych chi eisiau cymryd rhan, yna cysylltwch â thîm y treial.

9 Mae Ymgynghoriad â Chleifion a'r Cyhoedd wedi'n helpu ac wedi'n cynghori ar ambell agwedd ar gynllunio'r treial, gan gynnwys datblygu'r poster hwn.

Cysylltiadau yn y Tîm:

Trefnydd: paramedictrial@warwick.ac.uk

Ariannwr: www2.warwick.ac.uk/PARAMEDIC2

Partneriaid Ymchwil: 024 761 51164

Warwick Clinical Trials Unit, Gibbet Hill Road,
University of Warwick, Coventry, CV4 7AL

Organiser:

Warwick
Medical School

Funder:

NHS
National Institute for
Health Research

Research Partners:



London Ambulance Service
NHS Trust



North East Ambulance Service
NHS Foundation Trust



Welsh Ambulance Service
NHS Trust



South Central Ambulance Service
NHS Foundation Trust



West Midlands Ambulance Service
NHS Foundation Trust